



Elan Links: Partneriaeth Tirwedd Pobl, Natur a Dŵr

Swyddog Ymgysylltu, Addysg a Digwyddiadau Elan Links

Cyflog: 24- 28 mil y flwyddyn pro rata

A ydych chi'n gyfathrebwr ac yn gydlynnydd effeithiol? Ydych chi'n hoffi gweithio gyda phobl? Rydym yn chwilio am rywun i gydlynu'r ymgysylltu cymunedol, gweithgaredd dehongli a datblygu addysg a digwyddiadau, ar gyfer Elan Links: Cynllun Partneriaeth Tirwedd Pobl, Natur a Dŵr. Bydd deiliad y swydd yn gweithio gyda staff a phartneriaid eraill Cynllun Elan Links i sicrhau bod Cynllun Elan Links, ei weledigaeth a'i nodau a'i amcanion cysylltiedig yn weladwy ar draws nifer o lwyfannau. Gan ddefnyddio Strategaeth Ddehongli Elan Links, byddant yn datblygu rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau (cynulleidfaoedd newydd a phresennol) ac offer dehongli i ymgysylltu a dysgu am Dirwedd Elan Links a'i threftadaeth unigryw.

Dyddiad Cau: Dydd Mercher 29ain Ebrill. 12pm

Dyddiad y Cyfweiliad: Dydd Mercher 5ed o Fai

Lleoliad: Elan Valley, Rhaeadr, Powys, LD6 5HP

Oriau: 30 - 37.5 awr yr wythnos Cytundeb 18 mis

YNGLŶN AG ELAN LINKS:

Mae gan Elan Links: Partneriaeth Tirwedd Pobl, Natur a Dŵr gweledigaeth glir i "warchod treftadaeth unigryw ac amrywiol wrth wella'n sylweddol ar ganlyniadau i bobl a chymunedau yn y tymor hir".

Mae Elan Links: Partneriaeth Tirwedd Pobl, Natur a Dŵr wedi sicrhau arian oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri i ddarparu rhaglen gyffrous o 26 o brosiectau cyffrous o dan 11 o amcanion strategol a fydd yn darparu'r weledigaeth uchod.

Lleolir Elan ym Mynyddoedd Cambria yng Nghanolbarth Cymru. Lleolir y prosiect mewn tirwedd unigryw sy'n cyfuno tir bryniog anghysbell, ffermydd unig, cymoedd coediog serth a gorchest anhygoel o beirianeg Fictoraidd a ddaeth â dŵr glân i Firmingham.

Os ydych chi wrth eich bodd â thirweddau, bywyd gwyllt, a hanes, ac yn frwd dros helpu pobl leol i gymryd rhan mewn hybu a gofalu am leoedd arbennig, mewn ffyrdd traddodiadol, arloesol a chreadigol yna rydym yn chwilio am bobl sydd â brwdfrydedd, ymroddiad a dealltwriaeth o'r dirwedd bwysig yma i bobl a bywyd gwyllt.

Wedi'i leoli yng nghanol Tirwedd Elan Links, fe fyddwch yn rhan o dîm dynamig, sy'n sicrhau etifeddiaeth barhaus i genedlaethau'r dyfodol. Rydym yn chwilio am agwedd ddeinamig, y gallu i weithredu'n hyderus

sy'n frwdfrydig dros hyrwyddo a grymuso amrywiaeth eang o fuddiolwyr, partneriaid a rhanddeiliaid yn ein tirwedd arbennig.

Fel cydnabyddiaeth o hynny, rydym yn cynnig amgylchedd gwaith cyfeillgar a hyblyg, cyfleoedd gwych ar gyfer datblygiad personol a chyfle i wneud gwahaniaeth positif i'r bobl a chymunedau ar draws ardal Tirwedd Elan Links.

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl Swydd	Swyddog Ymgysylltu, Addysg a Digwyddiadau Elan Links
Yn atebol i	Uwch Reolwyr y Bartneriaeth, Cynllun Partneriaeth Elan Links (yn bennaf) a phartneriaid allweddol eraill
Cytundeb	30 – 37.5 yr wythnos ar raddfa gyflog o £24,000 i £28,000 pro rata Cytundeb cyfnod penodol o 18 mis

Diben y Swydd

Cyfrifoldebau

1. *Cydlynu dehongliad o Gynllun Elan Links*
 - 1.1. I gyflawni'r prosiectau canlynol:
 - 7a dehongli Elan
 - 7b Elan rhyngweithiol
 - 7c Preswylfeydd *Artistiaid*
 - 7d Digwyddiadau diddorol ac arloesol.
 - 1.2. *Cynorthwyo Rheolwr y Bartneriaeth gyda Phrosiect 11 - Manteisio arno; yn benodol, i ddatblygu perthynas gyda'n cymuned gysylltiedig ym Mirtingham megis sefydliadau partner posibl ac ysgolion.*
 - 1.3. Gweithio'n agos gyda holl aelodau tîm Elan Links a Phartneriaid i sicrhau agwedd gyfannol at elfennau gwytodaeth gyhoeddus a dehongli Cynllun Elan Links.
 - *Cyfryngau cymdeithasol*
 - *Datganiadau i'r wasg*
 - *Dulliau dehongli traddodiadol (e.e. byrddau ac arddangosiadau).*
 - 1.4. *Adnabod a datblygu perthnasoedd gyda grwpiau cymunedol sy'n cymryd rhan gan gynnwys y rhai ar hyd llwybr y bibell ac ym Mirtingham.*
 - 1.5. Gweithio'n agos gyda staff eraill Elan Links a Phartneriaid i archwilio ffyrdd o ymgysylltu â gwirfoddolwyr newydd a chefnogi gwirfoddolwyr presennol trwy feithrin gallu a rhaglenni hyfforddi.

- 1.6. Gweithio'n agos gyda Phartneriaid Elan Links a staff i ddatblygu adnodd addysgol arloesol ar gyfer y Cynllun a Phartneriaid.
- 1.7. Gweithio'n agos gyda staff a Phartneriaid Elan Links i arddangos llwyddiant Cynllun Elan Links trwy gynorthwyo gyda chynllunio digwyddiadau a sicrhau bod y cynllun yn cael ei gynrychioli a'i ddehongli'n gywir.
- 1.8. Cynorthwyo i weithio i sicrhau bod cynllun Elan Links yn darparu etifeddiaeth barhaus o fewn Elan a'r ardaloedd cyfagos.
- 1.9. Sicrhau bod yr holl waith yn cael ei gofnodi a'i fonitro'n briodol, i fodloni'r safonau a ddisgwylir gan CDL a Chynllun Monitro a Gwerthuso Elan Links.
- 1.10. Goruchwyllo a rheoli contractwyr a gwirfoddolwyr yn ystod gweithrediad y prosiect.
- 1.11. Rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol i'r Rheolwr Partneriaeth i sicrhau monitro a rheoli'r prosiectau uchod yn effeithiol, a chynhyrchu adroddiadau a diweddariadau ysgrifenedig lle bo angen neu'n briodol ar gyfer rheolwyr, partneriaid a chyllidwyr.
- 1.12. Sicrhau bod yr holl waith yn cael ei wneud yn unol â pholisïau, cynlluniau ac amcanion Elan Links gan roi sylw dyledus i les a diogelwch eraill bob amser.

2. Cyfrifoldebau eraill

- Ymuno â'r timau prosiect neu ardal hynny y mae rheolwr y bartneriaeth a/neu CARAD yn eu hystyried yn angenrheidiol
- Defnyddio'ch sgiliau a'ch profiad arbenigol ochr yn ochr â chydweithwyr eraill i sicrhau bod y blaenoriaethau strategol o fewn Cynllun Elan Links yn cael eu cyflawni'n integredig.
- Cynorthwyo gyda chyfathrebu a hyrwyddo'r prosiectau gan gynnwys datblygu a rheoli tudalennau gwe, e-fwletinau, defnyddio cyfryngau cymdeithasol a chysylltu â'r wasg lle bo angen.
- Cynrychioli Partneriaeth Elan Links mewn cyfarfodydd a digwyddiadau yn ôl yr angen a chyfrannu at hyrwyddo a darparu cyhoeddusrwydd eang i'r Cynllun trwy ddigwyddiadau, datganiadau i'r wasg, prosiectau dehongli, deunyddiau hyrwyddo, adroddiadau a phob math o gyfryngau.
- Cydlynu gyda'r holl bartneriaid, cefnogwyr a phartion â diddordeb i sicrhau eu hymgyssylltiad llawn â'r prosiectau perthnasol. Bydd hyn yn cynnwys adrodd i'r Bwrdd Partneriaeth ac ymgysylltu ac annog eraill i gymryd rhan yng Nghynllun Elan Links ac elwa ohono.

3. Cyfrifoldebau cyffredinol.

- Cynorthwyo i reoli cyllideb y prosiect a rhoi gwybodaeth i reolwr/rheolwyr y Bartneriaeth i wneud gwaith monitro ariannol.
- Cofnodi'ch gweithgareddau a'ch cynnydd.
- Mynychu cyfarfodydd tîm.
- Goruchwyllo'r gwaith o fonitro'r prosiect a'r cyfranogwyr, gan sicrhau bod yr allbynnau a'r canlyniadau y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni.
- Hyrwyddo gwaith, cenhadaeth a gweledigaeth Cynllun Elan Links gan adnabod a chydabod rôl y bartneriaeth ar bob adeg briodol.

- Defnyddio cyfle dyddiol sy'n gymesur â dyletswyddau eraill i gyfrannu at gyfathrebu'r Bartneriaeth, a chefnogi ei farchnata, codi arian ac ymgysylltu â phobl.
- Sicrhau lefel uchel o wasanaeth i gwsmeriaid wrth ddelio â'r cyhoedd.
- Sicrhau datblygiad parhaus y sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer y swydd, gan ymgymryd â hyfforddiant ac adolygiad perfformiad fel sy'n ofynnol gan y bartneriaeth.
- Gweithio o fewn holl bolisiau a gweithdrefnau'r sefydliadau partneriaeth allweddol gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gweithdrefnau iechyd a diogelwch ac unrhyw staff ac adnoddau yr ydych yn gyfrifol amdanynt.
- Cydymffurfio â'r holl rwymedigaethau cyfreithiol a chytundebol sy'n ymwneud â chyfrifoldebau eich swydd.
- Goruchwyllo a chefnogi gwirfoddolwyr fel y bo'n briodol gyda'ch rôl.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sy'n gymesur â lefel chyfrifoldeb y swydd, yn unol â chais eich rheolwr llinell neu Gadeirydd y Bartneriaeth.

CYD-DESTUN SWYDD

Teitl Swydd: Swyddog Ymgysylltu, Addysg a Digwyddiadau [Elan Links](#)

Mae hon yn swydd 30 - 37.5 awr yr wythnos am gyfnod penodol o 18 mis gyda phosibilrwydd o estyniad pellach. Fe'i hariennir gan Gynllun Elan Links gyda chyfraniadau gan Gronfa Partneriaeth Tirwedd CDL, Ymddiriedolaeth Cwm Elan, Dŵr Cymru ac eraill. Rheolwr y Bartneriaeth a Chyfarwyddwr CARAD fydd eich rheolwr llinell, ond byddwch hefyd yn atebol i Fwrdd Partneriaeth Elan Links.

Y rôl hon yn ystod y cyfnod hwn yw rheoli'r rhaglen waith ymgysylltu, digwyddiadau ac addysg ar gyfer gweddill cyfnod cyflawni Cynllun Elans Links. Bydd yn cynnwys gweithio gyda nifer o unigolion a sefydliadau yn ardal Cwm Elan, staff o'r holl sefydliadau partner, yn enwedig yn lleoli i Gwm Elan, staff o sefydliadau partner, yn enwedig EVT, DCWW, Tir Coed a CARAD, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd.

Rhennir lleoliad y swydd rhwng Swyddfa Ystadau Elan yng Nghwm Elan a swyddfeydd CARAD yn Rhaeadr er y gallai rhywfaint o weithio gartref fod yn bosibl. Efallai y bydd angen rhywfaint o weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau. Mae angen teithio yn ardal Cwm Elan gan gynnwys i ystod o safleoedd ar draws Ystâd Cwm Elan, llawer ohonynt ar draws tir anodd a dim ond ar droed y gellir eu cyrraedd. Bydd angen teithio rheolaidd ymhellach i ffwrdd i gymunedau targed ardal Birmingham. Mae'n ofynnol i ddeiliad y swydd ddarparu trafniadaeth addas, gyda chymorth a chynghor priodol i staff a gwirfoddolwyr eraill pan fo'n ddimunol er mwyn cyflawni ei chyfrifoldebau yn effeithiol. Bydd angen parodrwydd i fod yn hyblyg ynglŷn â threfniadau gweithio ac i gyflenwi o bryd i'w gilydd i staff absennol er mwyn cynnal effeithiolrwydd prosiect a sefydliadol.

Trwy eu swyddi mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb am gyflawni amcanion y Cynllun ac am gynnal enw da sefydliadau partner y Cynllun trwy ddangos lefelau uchel o onestrwydd a chyfrifoldeb.

Y PERSON Teitl Swydd: Swyddog Ymgysylltu, Addysg a Digwyddiadau [Elan Links](#)

Cymwysterau	Hanfodol	Dymunol
Gradd neu gymhwyster addysg uwch perthnasol		✓
Trwydded Yrru Lawn, yn lân o ddewis, a mynediad i gerbyd	✓	
Gwybodaeth a dealltwriaeth		
Dealltwriaeth o egwyddorion dehongli	✓	
Dealltwriaeth o egwyddorion ymgysylltu â'r gymuned	✓	
Dealltwriaeth o faterion treftadaeth a thirwedd naturiol, ddiwylliannol ac adeiledig gyfredol ardal Elan Links		✓
Gwybodaeth am y sefydliadau allweddol sy'n ymwneud â gwarchod ardal Elan Links ac agweddau treftadaeth ehangach		✓
Monitro a gwerthuso prosiect	✓	
Dealltwriaeth o faterion hyfforddi ac addysg	✓	
Profiad diweddar a pherthnasol o:		
Gweithio gyda chymunedau a gwirfoddolwyr	✓	
Gweithio gyda grwpiau difreintiedig ac ymylol		✓
Profiad o weithio gyda phrosiectau mawr a ariennir gan gynnwys Cronfa Dreftadaeth y Loteri		✓
Cyflawni prosiectau cymhleth yn unol â'r gyllideb a'r dyddiad cau	✓	
Gweithio gydag/cydlynu amrywiaeth o sefydliadau	✓	
Rhoi cyflwyniadau i amrywiaeth o gynulleidfaoedd	✓	
Cyflawni Ymgysylltu Cymunedol cynhwysol	✓	
Datblygu cynnwys o brosiectau i'w ddefnyddio i ymgysylltu â'r cyhoedd ehangach	✓	
Gweithio gyda chymunedau a gwirfoddolwyr	✓	
Gweithio gyda grwpiau difreintiedig ac ymylol		✓
Sgiliau: bydd angen y canlynol ar ddeiliad y swydd:		
Sgiliau rheoli prosiect	✓	
Sgiliau rheolaeth ariannol		✓
Sgiliau ysgrifenedig a llafar o'r radd flaenaf	✓	
Sgiliau ysgrifenedig a llafar rhagorol yn y Gymraeg		✓
Trefnus gyda sgiliau gweinyddol da	✓	
Rhinweddau personol		
Ymrwymiad i warchod tirwedd a threftadaeth	✓	
Yn drefnus ac yn gallu blaenoriaethu llwyth gwaith cystadleuol	✓	
Y gallu i weithio'n effeithiol gyda phobl o ystod eang o ddisgyblaethau	✓	
Yn gallu gweithio ar y cyd fel rhan o dîm	✓	
Yn gallu gweithio'n effeithiol o dan bwysau	✓	
Hunan-gymhelliant	✓	
Yn gallu cymell eraill	✓	
Yn gorfforol yn gallu cyrraedd safleoedd nad ydynt yn hygyrch mewn cerbyd	✓	

Y BROSES CAIS A CHYFWELIAD:

Rhaid i'ch ffurflen gais gyrraedd Rheolwr Cynllun Elan Links trwy e-bost neu drwy'r post yn ddim hwyrach na **12pm dydd Mercher 29ain o Ebrill 2022 fan bellaf**. Anfonwch e-bost at esther@elanvalley.org.uk

Cofiwch hefyd gynnwys enwau, cyfeiriadau (gan gynnwys cyfeiriadau e-bost, os ydynt ar gael) 2 ganolwr y gallwn gysylltu â nhw.

Rhowch eich enw llawn, eich rhif ffôn a'ch cyfeiriad post a/neu gyfeiriad electronig i ni hefyd er mwyn i ni gadarnhau ein bod wedi derbyn eich cais.

Cyfweliad: Fel rheol bydd y Bwrdd Dethol yn cynnwys pum cyfwelydd a fydd yn eich cwestiynu yn bennaf mewn cysylltiad â'ch profiad academaidd a/neu waith a'ch llwyddiannau cysylltiedig â swydd. Prif nod y Bwrdd fydd cael mewnwelediad i'ch gallu i gyflawni'r swydd yn effeithiol ac yn effeithlon. Gofynnir i chi ymgymryd â thasg / rhoi cyflwyniad byr ar lafar fel rhan o'ch cyfweliad, a bydd yr union fanylion yn cael eu cadarnhau. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael cynnig y swydd, yn amodol ar dystlythyrau boddhaol a gofynnir iddo/iddi hefyd ddarparu:

- 📄 Cadarnhad o'r Hawl i Weithio (Pasbort y DU neu Fisa Gwaith).
- 📄 Yna bydd disgwyl iddyn nhw ddechrau'r swydd cyn gynted â phosib wedi hynny.

Cyfle Cyfartal: Rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob grŵp oedran ac adran o'r Gymuned. Yn amodol ar y gyfraith, ni fydd unrhyw ymgeisydd am benodiad staff nac aelod o staff yn cael ei drin yn llai ffafriol nag un arall. Dim ond yn ôl teilyngdod personol a'u gallu i gyflawni'r swydd y bydd cyflogaeth gydag Ymddiriedolaeth Cwm Elan a dilyniant mewn cyflogaeth yn cael ei bennu. Rydym yn gwneud hyn trwy gymhwyso meini prawf sy'n gysylltiedig â dyletswyddau ac amodau pob swydd benodol ac anghenion y sefydliad dan sylw.

Byddwn yn ystyried ceisiadau am gyflogaeth ar sail ran-amser, rhannu swydd neu weithio hyblyg arall, hyd yn oed pan fydd swydd yn cael ei hysbysebu fel swydd amser llawn, oni bai bod rhesymau gweithredol neu resymau gwrthrychol eraill pam nad yw'n bosibl gwneud hynny.

Gan y bydd y swydd hon yn cynnwys cyswllt â chymysgedd o bobl, gofynnir i unrhyw ymgeisydd y cynigir y swydd iddo/iddi dros dro gwblhau gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Safonol.

Prif amodau cyflogaeth

Teitl swydd:	Swyddog Ymgysylltu, Addysg a Digwyddiadau Elan Links
Dyddiad cychwyn cyflogaeth:	Mai / Mehefin 2022
Lle gwaith:	Swyddfa Ystadau Elan, Pentref Elan, Rhaeadr, Powys, LD6 5HP.
Cyflog:	Cyflog blynyddol o £24,000-28,000 y flwyddyn.
Pensiwn:	Mae gan y Swyddog hawl i ymuno â chynllun pensiwn Ymddiriedolaeth Cwm Elan (isafswm cyfraniad 5% o'r cyflog) a bydd yn derbyn hyd at 3% o gyfraniad y cyflogwr
Cyfnod prawf:	Mae'r swydd hon yn amodol ar gyfnod prawf o chwe mis .
Hyd:	Cytundeb cyfnod penodol o 18 mis
Oriau:	30 / 37.5 awr yr wythnos (08 /1 FTE) , ond bydd yr oriau gwaith yn hyblyg ac yn cynnwys peth gwaith gyda'r nos ac ar y penwythnos. Caniateir amser in lieu am oriau goramser a weithir.
Gwyliau blynyddol	Yr hawl i wyliau blynyddol yw 28 diwrnod y flwyddyn (pro rata ar gyfer rhan amser) gan gynnwys gwyliau cyhoeddus statudol.
Defnydd cerbyd	Gellir hawlio costau defnyddio'ch cerbyd eich hun ar y gyfradd filltiroedd EVT gyffredinol
Dyddiad cau:	Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau electronig ar gyfer y swydd hon yw 12pm Dydd Mercher 29ain Ebrill 2022
Dyddiad y cyfweiliad:	Dydd Mercher 5ed o Fai yn Swyddfeydd Elan Links, Pentref Elan, Cwm Elan